

Swfenîr

(Parhad o'r dudalen flaen)

dadluddedu am ychydig yn yr Wylfa yng Nghemaes a bu hynny o ddirfawr les iddo. Llaciwyd y tyndra. Buan hefyd y canfu fod yr awryglch ym Môn yn bur wahanol i'r hyn ydoedd yn Lerpwl. Cynhelid llawer o'r cyrddau mewn ardaloedd fel Cemaes yn yr awyr agored. Roedd cymaint â dwy fil wedi tyrru i wrando arno mewn oedfa yn Llanfachraeth wedyn. Er na theimlai'r Diwygiwr fod cyfarfod o'r fath yn fanteisiol bob amser, chwaith. Roedd parch a threfn yn tueddu i gael eu colli weithiau. Byddai anesmwythyd a sŵn yn aml ar odreun y dyrfa, pobl yn cerdded o gwmpas, eraill yn eistedd ar bennau'r cloddiau neu yn ceisio gwthio yn nes at y wagen lle byddai'n sefyll i draethu. Nid nad oeddynt yn ei glywed yn llefaru yn eitha' rhwydd, a hynny heb hwylustod yr un microffon neu uchelseinydd, canys er nad oedd o byth yn gweiddi roedd ganddo lais hynod glir.


Cafodd oedfa ddwys yn Amlwch yn ogystal. Yno y dathlodd ei benblwydd yn saith ar hugain ac y traethodd ei rybudd enwog:

Y mae bedd i'r corff; y mae tragwyddoldeb i'r enaid: ond er hynny y mae dynion yn esgeuluso'r enaid yn fwy na'r corff.

Ac onid i oddeutu'r un cyfnod y perthyn y gosodiad mawreddog hwnnw y mae pob Monwysyn o bedigri yn fwy na pharod i gredu ynddo mai

Peth ofnadwy yw mynd i uffern: peth ofnadwy yw mynd i uffern o Gymru: mwy ofnadwy yw mynd i uffern o Sir Fôn!!

Un arall o nodweddion ei genhadaeth yng Ngogledd Môn oedd nifer y dieithriaid o wledydd tramor a ddoi i wrando arno. Yn wir daethai pedwar o weinidogion o Baris i'w weld pan oedd yn aros yn yr Wylfa a chanfyddwyd i'w hymweliad fod yn hynod fuddiol.



E. Morgan Humphreys ac Evan Roberts

Ac yn ddi-ddadl yr oedd rhyw hyfrydwch mawr o gwmpas y cyrddau a gynhaliwyd yn y fro honno yn ystod Mai a Mehefin 1905. Roedd hi'n haf - 'y gwair yn tonni yn y caeau o'n cwmpas,' chwedl E. Morgan Humphreys, 'a Môn a'i thirionwch yn gefndir hyfryd i'r cwbl.' (Ac fe ddylai'r newyddiadurwr craff hwnnw

wybod. Roedd yn adnabod y Diwygiwr yn dda, wedi mynychu cymaint â phedwar ugain o'i gyfarfodydd ac wedi cydletya ag ef ar ei deithiau). A rhywbryd yn ystod y daith arbennig honno hefyd yr arhosodd Evan Roberts ar aelwyd 'Refail, Rhosbeirio, gan adael ei ôl nid yn unig ar eneidiau'r teulu ond ar eu Beibl yr un pryd!

A phe gofynnai rhywun i minnau heddiw neilltuo dim ond un o blith y dwsinau ar ddwsinau o'r llythyrau a'r llofnodion sydd bellach yn fy nghasgliad, ni thybiaf y byddai raid petruso rhyw lawer. Fe ddewiswn y ddalen rwymo honno o hen Feibl ractsiog teulu 'Refail' 'slawer dydd. Wn i ddim yn union pam, cofier; onid hwyrach am fod diwygiad a diwygwyr yn ffenomena mor ddieithr i'm cenhedlaeth i nes bod y cyfan rywsut wedi cydio'n dynn yn y dychymyg. Na, does dim dwywaith amdani mai'r swfenîr bach hwnnw o gyfnod '04 ac '05 a drysorir fwyaf ohonynt oll.

Cymdeithas Bob Owen

FFAIR LYFRAU, RECORDIAU, A MÂN LESTRI

Ysgol y Berwyn, Y Bala,
Dydd Sadwrn 18 Medi
10 y bore - 4 prynhawn

Cynhelir ocsiwn yn y prynhawn 2.00 - 3.00

Mynediad £1 (yn cynnwys te a choffi)

Am fwy o fanylion cysyllter â'r golygydd ar (01678) 540 652